**Gwrthsemitiaeth**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

1 Tachwedd 2019

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 7 Hydref, pan wnaethoch ofyn am y wybodaeth ganlynol:

*Mae ein cais fel a ganlyn:*

*C1. Diffiniad gwrthsemitiaeth*
*C1a. A yw Diffiniad Cynghrair Cofio'r Holocost Rhyngwladol o Wrthsemitiaeth ('Diffiniad y Gynghrair') wedi'i fabwysiadu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru? Edrychwch hefyd ar antisemitism.uk/definition i gael rhagor o wybodaeth am Ddiffiniad y Gynghrair.*
*C1b. Os yw Diffiniad y Gynghrair wedi cael ei fabwysiadu, rhowch y dyddiad y cymeradwywyd y cynnig i wneud hynny.*
*C1c. Os yw Diffiniad y Gynghrair wedi'i fabwysiadu, a fabwysiadwyd Diffiniad y Gynghrair yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys yr holl enghreifftiau?*
*C1ch. Os nad yw'r holl enghreifftiau wedi'u mabwysiadu, pa rai a hepgorwyd?*
*C1d. Os yw Diffiniad y Gynghrair wedi'i fabwysiadu o gwbl, a fu cynnig i fabwysiadu Diffiniad y Gynghrair a gafodd ei wrthod ac, os felly, ar ba ddyddiad y cafodd ei wrthod?*
*C1dd. Os nad yw Diffiniad y Gynghrair wedi cael ei fabwysiadu eto, a drefnwyd amser i'w fabwysiadu?*

*C2. Codau Ymarfer*
*C2a.Os cafodd ei fabwysiadu, a yw Diffiniad y Gynghrair wedi cael ei ymgorffori yng nghod ymddygiad yr Aelodau?*
*Q2b. Os cafodd ei fabwysiadu, a yw Diffiniad y Gynghrair wedi cael ei ymgorffori yng nghod ymddygiad ac amodau cyflogaeth y swyddogion a'r cyflogeion?*
*C2c. Pwy sy'n gyfrifol am ymchwilio i honiadau o dorri codau ymddygiad y Cynulliad neu eu monitro? Darparwch ei enw, teitl ei swydd, ei gyfeiriad e-bost a'i rif ffôn.*

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

*<u>C3. Cwynion</u>*
*C3a. Faint o gŵynion ffurfiol am ymddygiad gwrthsemitig y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'u hystyried rhwng 1 Ionawr 2017 a 31 Rhagfyr 2018 yn erbyn aelodau, swyddogion neu gyflogeion y cyngor?*
*C3b. Faint o gŵynion a arweiniodd at gamau disgyblu?*
*C3c. Faint o gŵynion na arweiniodd at gamau disgyblu?*
*C3ch. Faint o gŵynion a gafodd eu hatgyfeirio at yr Ombwdsmon?*

*<u>C4. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hyfforddiant</u>*
*C4a. Pwy sy'n gyfrifol am gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth? Darparwch ei enw, teitl ei swydd, ei gyfeiriad e-bost a'i rif ffôn.*
*C4b. Pa hyfforddiant y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei ddarparu i'w aelodau, ei swyddogion a'i weithwyr yn benodol ynghylch gwrthsemitiaeth yn hytrach nag yn gyffredinol ynghylch pob math o wahaniaethu a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?*
*C4c. Os darperir hyfforddiant penodol ar wrthsemitiaeth, a yw'n cael ei gynnal gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn fewnol neu a yw'n cael ei gyflwyno gan ddarparwr hyfforddiant allanol?*
*C4ch. Os darperir hyfforddiant penodol ar wrthsemitiaeth, pa sefydliad(au) sy'n darparu'r hyfforddiant?*

*<u>C5. Cydlynydd 'Prevent'</u>*
*C5a. Pwy yw Cydlynydd Prevent Cynulliad Cenedlaethol Cymru? Darparwch ei enw, teitl ei swydd, ei gyfeiriad e-bost a'i rif ffôn.*

*Diolch am eich cymorth.*
*Yn gywir*

Gweler yr ymateb isod.

**<u>C1. Diffiniad gwrthsemitiaeth</u>**

C1a. Ni chynhaliwyd unrhyw drafodaethau ynghylch Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn mabwysiadu Diffiniad y Gynghrair.

C1b. Amherthnasol.

C1c. Amherthnasol.

C1ch. Amherthnasol.

C1d. Hyd yma, ni fu unrhyw gynnig i fabwysiadu Diffiniad y Gynghrair.

C1dd. Nid oes trafodaeth ynghylch Diffiniad y Gynghrair wedi cael ei amserlennu.

**C2. Codau Ymarfer**
C2a. Amherthnasol.

C2b. Amherthnasol.

C2c. Adnoddau Dynol sy'n gyfrifol am ymchwilio i honiadau o dorri cod ymddygiad y Cynulliad ar gyfer staff Comisiwn y Cynulliad. Mae pawb yn gyfrifol am ddwyn unrhyw achosion honedig o dorri'r cod ymddygiad i sylw'r rheolwyr.

Dylid anfon cwynion ynghylch ymddygiad Aelodau'r Cynulliad at swyddfa Comisiynydd Safonau Annibynnol y Cynulliad.

**C3. Cwynion**
C3a. 0

C3b. Amherthnasol.

C3c. Amherthnasol.

C3ch. Amherthnasol.

**C4. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hyfforddiant**
C4a. Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i hyrwyddo amrywiaeth, cynhwysiant a chyfle cyfartal i'r staff ac i bobl Cymru. Mae ein tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sicrhau bod Comisiwn y Cynulliad yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol o dan y gyfraith gydraddoldeb.

C4b. Nid yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu hyfforddiant penodol ar wrthsemitiaeth ar hyn o bryd. Mae polisi Urddas a Pharch y Cynulliad yn ei gwneud yn glir nad ydym yn goddef unrhyw ymddygiad amhriodol sy'n effeithio'n andwyol ar urddas rhywun arall.

Mae Polisi Urddas a Pharch Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei gwneud yn glir bod ymddygiad amhriodol, sy'n torri'r polisi, yn golygu **unrhyw ymddygiad sy'n effeithio'n andwyol ar urddas rhywun arall.** Mae'n cwmpasu'r **holl ystod o ymddygiad nas dymunwyd** – hynny yw, ymddygiad nad yw'n cael ei annog na'i dderbyn gan y dioddefwr, ni waeth a fwriadwyd iddo beri tramgwydd, ac ni waeth a yw'n digwydd mwy nag unwaith neu a yw'n ddigwyddiad unigol.

Yn y canllawiau hyn, rydym yn disgrifio rhai mathau penodol o ymddygiad amhriodol a fydd yn torri'r polisi. Os bydd ymchwiliad yn canfod bod y mathau hyn o ymddygiad wedi digwydd, yn gyffredinol, byddant yn cael eu cosbi gan sancsiynau disgyblu, fel rhybuddion neu hyd yn oed ddiswyddo,

a/neu'r gyfraith droseddol. **Ond mae'n bwysig cofio mai dim ond enghreifftiau yw'r rhain - bydd unrhyw ymddygiad sy'n effeithio ar urddas rhywun arall yn torri'r polisi.**

**Ymddygiad gwahaniaethol:** Gall ymddygiad sy'n effeithio yn andwyol ar urddas rhywun fod yn seiliedig ar oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhyw, statws priodasol neu bartneriaeth sifil (neu ei ddiffyg), hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, cysylltiad â lleiafrif, iaith, anabledd neu gyflwr meddygol, crefydd neu gred neu ddiffyg hynny, aelodaeth o undeb llafur neu ddiffyg hynny, amgylchiadau domestig, eiddo, genedigaeth neu nodwedd bersonol arall yr unigolyn. Lle mae'n gwneud hynny, bydd yr ymddygiad hwnnw'n amhriodol ac felly'n torri'r polisi hwn.

C4c. Amherthnasol.

C4ch. Amherthnasol.

**<u>C5. Cydlynydd 'Prevent'</u>**

C5a. Ar hyn o bryd nid oes gennym Gydlynydd 'Prevent'. Mae gennym 4 Swyddog Diogelu Dynodedig.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu yn ysgrifenedig at:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF